Datganiad Cymorth Rhodd

Mae'n help mawr os gallwn ailhawlio'r dreth trwy gymorth rhodd.
Mae'n rhaid eich bod yn talu cymaint o dreth â'r swm y gall yr ymddiriedolaeth ei ad-ennill o'ch rhoddion yn y flwyddyn briodol (25c am bob punt ar hyn o bryd)

Dymunaf i Ymddiriedolaeth Unigeddau'r Elenydd ystyried pob tâl aelodaeth a rhodd a wnaf o 1 Ebrill 2006 ymlaen, fel Cymorth Rhodd.

Llofnod:	Dyddiad:

Cynnig helpu

☐ Hoffwn wirfoddoli i helpu trwy weithio fel warden mewn hostel neu gydag agweddau eraill ar waith yr Ymddiriedolaeth.
Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd trwy'r post at: Ymddiriedolaeth Hosteli Unigeddau'r Elenydd d/o 29 The Nook, Hoylandswaine, Sheffield S36 7JW. Am ymholiadau, danfonwch e-bost at: **members@elenydd-hostels.co.uk** neu rhowch ganiad ar **01226 764052** (min nos yn unig)

Ymddiriedolaeth Hosteli Unigeddau'r Elenydd

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn 2006 pan ddwedodd yr YHA eu bod yn bwriadu cau a gwerthu tri hostel yr Elenydd. Trwy waith caled llawer o wirfoddolwyr, mae'r Ymddiriedolaeth erbyn hyn yn rhedeg dau o'r hosteli hyn yn annibynnol.

Yn 2007, cododd arian i brynu Dolgoch ac wedyn cael cymorthdal mawr ar gyfer gwaith adnewyddu.

Gwnaed llawer o welliannau yn Nhy'n Cornel, sy'n cael ei brydlesu ar hyn o bryd a'r cam nesaf i'r Ymddiriedolaeth yw codi arian i brynu'r hostel hwn. Mae angen swm mawr a byddem yn falch o dderbyn unrhyw rodd er cyn lleied.

Yn ogystal â thrwy rodd, gallwch gefnogi'r Ymddiriedolaeth mewn ffyrdd eraill drwy ddod yn aelod, drwy gynnig eich cymorth fel gwirfoddolwr neu drwy ddod i aros yn ein hosteli.

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

communities first cymunedau yn gyntaf

RECOMMENDED BY ROUGH GUIDES 2012

Hosteli Unigeddau'r Elenydd Wilderness Hostels

Hosteli Unigeddau'r Elenydd
Cyfeiriad cofrestredig: 7 Azelea Close,
Cyncoed, Caerdydd, CF23 7HR
02920 732289
chair@elenydd-hostels.co.uk
www.elenydd-hostels.co.uk

Rhif Cofrestru Comisiwn yr Elusennau: 1115946

DDARGANFOD UNIGEDDAU CYMRU

LLETY SYML YNG NGHALON Y CANOLBARTH

Ty'n Cornel

Dolgoch

Cynllun gan Zodshop
www.zodshopdesign.co.uk



Ty'n Cornel

Llanddewi Brefi
Ceredigion, SY25 6PH
Cyfeirnod Grid OS: SN 751 535
Signal ffonau symudol filltir i ffwrdd (dim ffôn).
16 lle mewn 8 gwely bwnc mewn 2 ystafell

Mae mewn lleoliad hardd dros ben oddi ar yr isffordd sy'n mynd tua'r dwyrain o Landdewi Brefi, ar y lôn fynydd i gapel Soar y Mynydd. Mae'r trenau agosaf yng Nghynghordy (13 milltir) a'r bysiau agosaf yn Llanddewi Brefi (7 milltir).

Dolgoch

Tregaron, Ceredigion, SY25 6NR
Ffôn: 01974 298680
Cyfeirnod Grid OS: SN 806 562
Yn cael ei oleuo gan oleuadau nwy (dim trydan) **21** gwely mewn **3** ystafell o **4, 6** ac **11** gwely bwnc. **Mae cyfleusterau i ymwelwyr llai abl mewn un ystafell**

Mae'n sefyll wrth afon dawel Tywi ar lôn oddi ar y ffordd rhwng Tregaron ac Abergwesyn. Mae'r trenau agosaf yn Llanwrtyd (11 milltir) a'r bysiau agosaf yn Nhregaron (10 milltir).

Beth sydd i'w wneud

Ymwelwch ag ardal yr Elenydd i brofi'i heddwch a'i thawelwch a'r golygfeydd eang dros y mynyddoedd. Ymlaciwch, atgyfnerthu a mwynhau digonedd o weithgareddau awyr agored. Mae'n bosibl gwylio adar yn y dydd a syllu ar y sêr sy mor ysblennydd yn yr awyr dywyll yn y nos. Gallwch chwilio'r ardal ar y llwybrau i gerddwyr, i feicwyr ac i geffylau, sy'n cychwyn wrth ddrws y hosteli. Mae hostel Ty'n Cornel ar lwybr cerdded pellter mawr Ffordd Cambrian ac mae llwybr beicio Lôn Las Cymru yn mynd heibio i hostel Dolgoch.

Dychwelwch i dân cynnes a chartrefol a gwely cyfforddus.

Mae atyniadau eraill cyfagos yn cynnwys Bae Ceredigion, trefi a phentrefi lleol megis Aberystwyth, Llanymddyfri a Thregaron, adfeilion Abaty Ystrad Fflur, Mwyngloddiau Aur Dolaucothi a Llanerchaeron sydd ill dau yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a pheth wmbredd o hanes mwyngloddio, gwarchodfeydd natur a chronfeydd Llyn Brianne, Llynnoedd Teifi a Chwm Elan.

Cyfeiriadau manwl ar y wefan

www.elenydd-hostels.co.uk

Roedd y ddau hostel yn arfer bod yn ffermdai ac maent yn sefyll yn anghysbell yn ardal fynyddig Canolbarth Cymru. Maent yn rhoi llety hunanarlwyol glân a chyfforddus.

- Ar agor trwy gydol y flwyddyn
- Darperir dillad gwely
- Ceginau cyflawn
- Cawodydd poeth
- Gwresogi gan ffwrn coed a thân agored, a darperir tanwydd
- Lle i barcio ceir ac i gadw beiciau
- Croeso i unigolion ac i grwpiau
- Wardeniaid preswyl y rhan fwyaf o'r flwyddyn
- Tir pori i geffylau dros nos yn Nolgoch

Prisiau

- £12 y person y noson, £9 dan 18 oed, a gostyngiadau eraill ar gael
- Ychydig o le gwersyllu am £6 y person

Mae'n flin gennym ond ni chaniateir cŵn ond cŵn cymorth.

Bwcio

(Argymhellir i chi fwcio; angenrheidiol yn ystod y gaeaf.)

Bwcio ar lein ar **www.yha.org.uk**

Bwcio canolog yr YHA	**0800 0191700**
Dolgoch	**01782 253274**
Ty'n Cornel	**01980 629259**

Hosteli Unigeddau'r Elenydd

Ffurflen Ymaelodi a Rhodd
Rhif Elusen Cofrestredig: 1115946

Enw cyntaf:

Teitl a Chyfenw:

Cyfeiriad:

Cod Post: Blwyddyn geni:

Ffôn:

e-bost:

HOFFWN YMUNO Â'R YMDDIRIEDOLAETH

Nodwch un

☐ 1 flwyddyn am £10 ☐ 2 flynedd am £18
☐ 3 blynedd am £25

Hoffwn roddi:

tuag at waith yr Ymddiriedolaeth **£**

tuag at apêl Ty'n Cornel **£**

Cyfanswm **£**

Amgaeaf siec yn daladwy i Hosteli Unigeddau'r Elenydd NEU rwyf wedi talu'r arian i gyfrif banc yr Ymddiriedolaeth:
HSBC – Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Cod: 40-46-43 Rhif: 51253182
Enw'r cyfrif: Hosteli Unigeddau'r Elenydd

Cofiwch ofyn i'r Banc gynnwys eich enw llawn fel cyfeirnod

Dyddiad:

Os ydych yn talu treth, gallwch helpu'r Ymddiriedolaeth yn fwy byth trwy lenwi'r datganiad am gymorth rhodd drosodd.